

No.

PWYLLGOR CRAFFU DYSGU A DIWYLLIANT

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 7 Ebrill, 2022.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#)

Yn Bresennol: Y Cynghorydd G.C. Kemp (Cadeirydd); Cynghorydd R.M. Birch (Is-Gadeirydd); Cyngorwyr S.J. Griffiths, N.P. Hodges, J.M. Norman, A. Parker, S.M. Perkes, N.C. Thomas a L.O. Rowlands.

Aelodau cyfetholedig: R. Morteo (Yr Eglwys yng Nghymru). Dr. M. Price (Yr Eglwys Gatholig), L. Barrowclough (Rhiant-lywodraethwr – Sector Cynradd) a C. Williams (Rhiant-lywodraethwr – Sector Uwchradd).

Hefyd yn bresennol: Cyngorwyr L. Burnett (Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio),

1027 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

1028 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gyngorwyr T.H. Jarvie a G. Scott (Addysg Gymraeg)

1029 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mawrth, 2022 fel cofnod cywir.

1030 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

1031 CYNLLUNIAU CYDRADDOLDEB STRATEGOL DRAFFT AR GYFER YSGOLION (CYF) –

Roedd y Cabinet, ar 14 Mawrth, 2022, wedi cymeradwyo'r Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol Drafft ar gyfer Ysgolion yn sail ar gyfer ymgynghori, ac

No.

wedi atgyfeirio'r adroddiad a'r Cynllun drafft (Atodiad A) at y Pwyllgor i'w hystyried yn rhan o'r rhaglen ymgynghori.

Cyflwynodd y Rheolwr Grwpiau Agored i Niwed y cyfeiriad, a oedd yn nodi bod y Cynllun drafft yn dangos bod Bro Morgannwg yn Gyngor gwrth-hiliol amrywiol a gweithredol, a dangosodd y gwaith o ddatblygu'r Cynllun sut y gallai'r Cyngor bontio'r bwlch rhwng polisïau a chanllawiau, a throi hyn yn gamau gweithredu go iawn. Diben y Cynllun drafft oedd disgrifio'r hyn yr oedd ysgolion yn ei wneud i gyflawni eu dyletswyddau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a oedd yn cynnwys, yn ogystal â'r 'ddyletswydd gyffredinol', yr angen i:

- ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac ymddygiad arall a waerddir gan y Ddeddf;
- hyrwyddo cyfle cyfartal i bobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phobl heb un o'r nodweddion hynny;
- meithrin perthnasau da rhwng pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig a phobl heb un o'r nodweddion hynny.

Roedd y Cynllun drafft yn cynnwys dau amcan cydraddoldeb strategol:

- Gwella sut rydym yn cynnwys grwpiau gwarchoddedig yn ein gwaith a'n penderfyniadau a sut rydym yn ymgysylltu ac yn cyfathrebu â nhw am y rheiny.
- Datblygu a gweithredu cynlluniau drwy gydol oes y cynllun hwn i fynd i'r afael â bylchau cyrhaeddiad plant a phobl ifanc a rhoi cymorth i oresgyn rhwystrau sy'n eu hatal rhag cyflawni eu llawn botensial.

Diolchodd yr Aelodau i'r Swyddog am y Cynllun drafft, gyda'r Cadeirydd yn nodi ei fod yn gryno tra'n dal i gyfleu ei ddiben yn effeithiol, a dywedodd yr Is-gadeirydd y byddai croeso arbennig i'r Cynllun yng ngoleuni dyfodiad ffoaduriaid o Wcráin. Ychwanegodd yr Is-gadeirydd fod datblygu'r Cynllun yn bwysig gan nad oedd mynegi bwriadau da mor effeithiol â'u gwneud yn ffurfiol yn fater o bolisi.

Mewn ymateb i ymholiadau gan yr Aelodau, ymatebodd y Swyddog fel a ganlyn:

- Roedd ysgolion wedi bod yn ymatebol ac wedi cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu'r Cynllun, gyda'r Uwch Dimau Arwain wedi'u gwahodd i hyfforddiant ac i ymuno â'r sgwrs am y Cynllun ym mis Hydref 2021. Roedd hyfforddiant wedi'i hwyluso gan 'No Outsiders' ac roedd wedi cynnwys trafodaethau ynghylch nodweddion gwarchoddedig a hunaniaethau rhywedd.
- Yn dilyn hyfforddiant a sgysiau cychwynnol, roedd yr adnoddau yr ystyriwyd eu bod yn fwyaf effeithiol wedi'u rhoi i ysgolion ac yn cael eu defnyddio.
- Roedd sgysiau gydag ysgolion yn parhau i ddigwydd, ac ar ôl i'r Cynllun gael ei gyhoeddi byddai cymorth i ysgolion yn parhau yn dibynnu ar ble roeddent wedi'u lleoli o ran eu cyd-destunau unigol a'u teithiau cydraddoldeb. O'r herwydd, byddai cyflawni'r Cynllun yn edrych yn wahanol ym mhob ysgol i sicrhau ei fod yn gweithio i'w cymunedau penodol, a fyddai'n amrywio'n naturiol.
- Bwriad y Cynllun a'r cymorth cysylltiedig oedd galluogi staff a disgyblion i gael sgysiau anodd am faterion fel hiliaeth, rhywiaeth a rhagfarn.

No.

- Roedd y Swyddog yn falch o ddweud bod ysgolion cymunedol ffydd ym Mro Morgannwg yn gynhwysol ac yn agored i sgysiaau am faterion fel hunaniaeth rhywedd a rhywioldeb, gyda'r ysgolion yn cydnabod bod hyn yn angenrheidiol i adlewyrchu profiadau eu disgyblion eu hunain. Byddai'r broses ymgynghori yn rhoi gwybod ymhellach i'r Cyngor am y cymorth a'r adnoddau y byddai eu hangen ar ysgolion cymunedol ffydd i barhau â'r sgysiaau hyn ac i daclo sgysiaau a allai fod yn anodd.

Roedd Dr Price am adleisio ymateb y Swyddog, gan ddweud bod ysgolion Catholig yn gynhwysol yn ei brofiad ef a'u bod wedi gweithio gyda staff y Cyngor i sicrhau bod teimladau a phwrpas y Cynllun drafft wedi'u hymgorffori'n llawn yng ngwaith yr ysgolion.

Gyda chaniatâd i siarad, roedd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio am roi clod dyledus i dîm y Swyddog am ei waith yn datblygu'r Cynllun drafft ac yn cefnogi ysgolion. Siaradodd yr Aelod Cabinet am ei phrofiadau yn ymweld ag ysgolion ac yn siarad â disgyblion ar-lein. Roedd yn gwybod bod pobl ifanc wedi bod yn rhan o'r broses a'u bod yn awyddus i barhau i drafod y materion hyn, ac awgrymodd y byddai'n fuddiol i'w lleisiau gael eu clywed gan y Pwyllgor, o bosibl drwy gyfrwng gweithdy.

Ar ôl ystyried y Cynllun drafft yn llawn, fe'i

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO'R Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol drafft ar gyfer Ysgolion, a bod y Pwyllgor yn diolch i'r Rheolwr Grwpiau Agored i Niwed a'r holl staff sy'n ymwneud â datblygu'r Cynllun drafft.

Y rheswm dros yr argymhelliad

Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

1032 Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM BAFILIWN PIER PENARTH A'R TREFNIADAU GWAITH POSIBL A CHYFLEOEDD YN Y DYFODOL AR GYFER TY A GERDDI CYMIN (CYF) -

Roedd y Cabinet, ar 14 Mawrth 2022, wedi atgyfeirio'r adroddiad at y Pwyllgor i'w ystyried er mwyn gweithredu nifer o benderfyniadau mewn cysylltiad â materion a godwyd yn yr adroddiad, yn amodol ar farn neu argymhellion y Pwyllgor.

Cyflwynodd y Pennaeth Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau yr adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed o ran adfywio Pafiliwn Pier Penarth ers i'r Cyngor ddechrau ei reoli ac yn amlinellu cysylltiadau posibl ag asedau eraill y Cyngor fel Tŷ a Gerddi'r Cymin.

Ers agor i'r cyhoedd dan reolaeth y Cyngor ym mis Ebrill 2021, roedd Pafiliwn Penarth wedi cynhyrchu incwm ychwanegol o dros £70,000 drwy'r Cytundeb rhwng y Cyngor a'r Caffi Big Fresh, a chyfran elw o nifer o ddigwyddiadau a chomisiwn o werthiannau celf. Roedd detholiad o ddigwyddiadau wedi'u cynnal yn y Pafiliwn, a byddai'r Pafiliwn yn parhau i gynnig rhaglen lawn o weithgareddau

No.

a digwyddiadau yn y dyfodol i'r gymuned ei mwynhau, tra hefyd yn cynyddu cyfleoedd incwm i gefnogi'r gwaith o redeg yr adeilad. Tynnodd y Swyddog sylw at y ffaith bod y gwarged o holl werthiannau Big Fresh Catering yn y Pafiliwn yn mynd i ysgolion.

Roedd y Cymin, Beach Road yn wag ar hyn o bryd, a oedd yn rhoi cyfle i'r Cyngor gyflwyno cynnig pellach gan gynnwys digwyddiadau a gweithgareddau cymunedol tra hefyd yn cynhyrchu incwm i gefnogi'r gwaith o redeg yr adeilad. Gellid efelychu'r model llwyddiannus yn y Pafiliwn yn y Cymin.

Dywedodd y Swyddog fod rhai penderfyniadau gweithdrefnol wedi'u gwneud gan y Cabinet i'r Pwyllgor eu hystyried:

- Bod y gwaith o reoli'r Pafiliwn yn weithredol yn aros o fewn portffolio'r Celfyddydau a Diwylliant; a
- Bod trwydded 12 mis Big Fresh Catering yn y Pafiliwn yn cael ei hadnewyddu a bod y cwmni yn aros yn ei le fel y tenant angori.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddog o'r adroddiad, gwnaeth yr Aelodau sylwadau y gellid eu crynhoi fel a ganlyn:

- Tynnodd y Cynghorydd N.C. Thomas sylw at y ffaith bod y ddau adeilad yn eiconig ac yn arwyddocaol yn ardal Penarth, ond roedd angen buddsoddi sylweddol i adnewyddu'r Cymin ac felly croesawodd gyfeiriad y Cyngor o feddwl tuag at fodel a oedd yn ategu'r gweithgareddau yn y Pafiliwn ac yn cydweithio â nhw.
- Roedd y Cynghorydd S.D. Perkes yn gobeithio y gellid ailadrodd llwyddiant y model yn y Pafiliwn yn y Barri, yn enwedig o ran cynlluniau ar gyfer yr Oriol Gelf Ganolog yn y dyfodol. Gan fod y lleoliad yng nghanol y dref ac yn hawdd ei gyrraedd, roedd y Cynghorydd Perkes yn gobeithio y byddai ystod eang o gelfyddydau ar gael i'r holl drigolion, gyda gwarged i'w fuddsoddi yn ôl i Fro Morgannwg.

Gyda chaniatâd i siarad, canmolodd yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio waith y Swyddog a'i wasanaeth mewn perthynas â'r Pafiliwn. Nododd yr Aelod Cabinet fod llawer o Gynghorau yn rhoi eu gwasanaethau arlwyo ar contract allanol dim ond i fynd i'r afael â diffygion, tra bod Big Fresh yn gweithredu ar warged sylweddol. O ran y Cymin, dywedodd fod angen gwneud gwaith i bennu defnydd yn y dyfodol gan fod y Cyngor yn dymuno osgoi dyblygu gyda lleoliadau eraill yn yr ardal, ac felly roedd cynifer o fentrau arloesol yn y gymuned yn cael eu cyflwyno. O ran dyblygu llwyddiant model y Pafiliwn mewn manau eraill yn y Fro, nododd yr Aelod Cabinet ddatblygiadau yn yr Oriol Gelf Ganolog yn y Barri a'r Hen Neuadd yn y Bont-faen, ond ychwanegodd y dylid ystyried cyfleuster celfyddydau ac addysg yng Ngorllewin y Fro hefyd.

Dywedodd y Swyddog, gan fod datblygiadau'n mynd rhagddynt, y byddai'r Pwyllgor yn cael adroddiadau diweddar am y celfyddydau a diwylliant yn y dyfodol, ac yng nghyd-destun yr heriau sy'n wynebu pobl ifanc a theuluoedd ar hyn o bryd, na ddylid tandatgan pwysigrwydd y celfyddydau.

No.

Ar ôl ystyried y cyfeiriad a'r adroddiad atodedig yn llawn, fe'i

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO'R penderfyniadau a wnaed gan y Cabinet ar 14 Mawrth, 2022 (rhif cof. C880), a nodi y byddai'r Pwyllgor yn croesawu diweddariadau yn y dyfodol mewn perthynas â'r mater hwn.

Y rheswm dros yr argymhelliad

Wedi ystyried cynnwys y cyfeiriad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

1033 CWRICWLWM I GYMRU: TAITH I 2022 – DIWEDDARIAD TYMOR Y GWANWYN 2022 –

Cyflwynodd Prif Bartner Gwella Consortiwm Canolbarth y De (CCD) dros Asesu a Chydlynu'r Cwricwlwm y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd a wnaed tuag at gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru, a oedd i fod i gael ei gyflwyno mewn ysgolion a gynhelir a lleoliadau meithrin nas cynhelir a ariennir o fis Medi 2022. Roedd y cyflwyniad yn rhoi gwybod am ymchwil a wnaed i helpu ysgolion gyda'r broses o gynllunio eu cwricwla, gan alinio cyngor gan Lywodraeth Cymru â model meddwl am ddylunio. Roedd y posibilrwydd o gynllunio'r cwricwlwm yn gyffrous i ysgolion gan fod y Cwricwlwm i Gymru yn cynnig egwyddorion eang, lefel uchel a oedd yn galluogi ysgolion i deilwra eu cwricwla i'w cyd-destunau lleol.

Wedyn, gwahoddwyd aelodau staff cynrychioliadol o Ysgol Gynradd Colcot ac Ysgol Iolo Morganwg i siarad gerborn y Pwyllgor, a rhoddwyd cyflwyniad i'r Aelodau gan bob ysgol yn myfyrio ar ei phrofiadau ei hun hyd yn hyn o gynllunio'r cwricwlwm. Yn dilyn y cyflwyniadau, diolchodd Cyfarwyddwr Cynorthwyol CCD dros y Cwricwlwm a Dysgu Proffesiynol i'r cynrychiolwyr am amlinellu'r gwaith gwyb sy'n digwydd mewn ysgolion, gan dynnu sylw at wahanol ddulliau a oedd yn rhoi plant a'r Pedwar Diben wrth eu gwraidd.

Diolchodd y Cadeirydd i gynrychiolwyr CCD a'r ysgolion am eu cyflwyniadau, gan nodi bod y Pwyllgor wedi clywed llawer am y Cwricwlwm i Gymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a'i fod yn dda clywed am brofiadau penodol yn fanylach.

Yna, gan nad oedd unrhyw ymholiadau ar y pryd, fe'i

ARGYMHELLWYD – DYLID diolch i aelodau staff cynrychioliadol Ysgol Gynradd Colcot ac Ysgol Iolo Morganwg am eu cyflwyniadau, a bod cynnwys eu cyflwyniadau yn cael ei nodi.

Y rhesymau dros yr argymhelliad

Ystyried cynnwys y cyflwyniad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.